Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

## Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

### GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483 (CYFFORDD 7, CYFNEWIDFA YR ORSEDD I FFIN CYMRU/LLOEGR, BWRDEISTREF SIROL WRECSAM) (GWAHARDD CERBYDAU A THERFYN CYFLYMDER O 40 MYA DROS DRO) 201-

MAE GWEINIDOGION CYMRU yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ymhen dim llai na saith niwrnod ar ôl dyddiad y Gorchymyn hwn. Mae angen y Gorchymyn tra bo'r Asiantaeth Briffyrdd yn gosod wyneb newydd ar Gefnffordd yr A483 wrth Gylchfan Pulford.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad a'r cyfyngiad a ganlyn mewn grym yn achlysurol rhwng 21:00 o'r gloch ar 1 Medi 2014 hyd 05:00 ar 23 Rhagfyr 2014 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol. Dim ond dros nos y disgwylir i'r gwaith gael ei wneud; rhwng 21:00 a 05:00 ar ddydd Llun i ddydd Gwener a rhwng 21:00 a 07:00, ar ddydd Sadwrn a dydd Sul. Ni chaiff y ffordd ei chau ar Wyliau Banc na phan fydd rasys yn cael eu cynnal gyda'r hwyr ar Gaeau Rasys Caer.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd gwneud y canlynol dros dro:-

i. gwahardd pob cerbyd, ac eithrio'r rheini a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys, neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn.

ii) gosod terfyn cyflymder o 40 mya ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Y llwybr amgen ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de fydd mynd ar yr A55 tua'r gorllewin hyd at Gyffordd 35, yr A550 a'r B5373 tua'r de a'r B5102 tua'r dwyrain i ymuno â'r A483 wrth Gyffordd 7: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd o Gyffordd 7. Bydd arwyddion dargyfeirio hefyd yn eu lle ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd o Gyffordd 6 (Cyfnewidfa Gresffordd) i ddweud wrthynt i ddilyn yr A5156 tua'r de-ddwyrain, yr A534 tua'r dwyrain a'r A41 tua'r gogledd i ymuno â'r A55 naill ai tua'r gorllewin neu'r dwyrain wrth Gyffordd 39. Bydd arwyddion hefyd yn dangos llwybrau dargyfeiriol ar gyfer traffig lleol sydd am ymuno â'r A483 o'r B5445 Ffordd Wrecsam a Rough Hill neu gael mynediad at y ffyrdd hyn o'r A483.

Caiff pob cerbyd dros 3.0 metr o led ei wahardd rhag defnyddio'r prif lwybr dargyfeirio a chânt eu cyfeirio at gilfannau cyn y darnau fydd ar gau gan arwyddion rhybudd o flaen llaw a fydd yn nodi rhif ffôn i'w ffonio os bydd raid; os bydd angen caiff y cerbydau eu tywys i ardal ddiogel gerllaw i barcio hyd nes y bydd y ffordd yn ailagor.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn arfaethedig fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol oherwydd amgylchiadau nad oedd modd eu rhag-weld.

**M D BURNELL**
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru.

### ATODLEN

i) Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o gychwyn trwyniad y ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyffordd 7, Cyfnewidfa'r Orsedd, i ffin Cymru/Lloegr.

ii) Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o ffin Cymru/Lloegr at ddiwedd trwyniad y ffordd ymuno tua'r de wrth Gyffordd 7, Cyfnewidfa'r Orsedd.

iii) Y darnau cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gogledd a'r ffordd ymadael tua'r de wrth Gyffordd 7, Cyfnewidfa'r Orsedd.

### ATODLEN 2

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 1.8 cilometr i'r de o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyffordd 7, Cyfnewidfa'r Orsedd, hyd at gychwyn trwyniad y ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyffordd 7, Cyfnewidfa'r Orsedd.

## A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

### THE A483 TRUNK ROAD (JUNCTION 7, ROSSETT INTERCHANGE TO THE WALES/ ENGLAND BORDER, WREXHAM COUNTY BOROUGH) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES AND 40 MPH SPEED LIMIT) ORDER 201-

THE WELSH MINISTERS propose, in not less than seven days from the date of this Notice, to make an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary whilst the Highways Agency undertakes resurfacing works on the A483 Trunk Road at the Pulford Roundabout.

It is expected that the following prohibition and restriction will operate intermittently from 21:00 hours on 1 September 2014 until 05:00 hours on 23 December 2014 or until the temporary traffic signs are permanently removed. The works are only expected to operate overnight between 21:00 hours and 05:00 hours Monday to Friday and between 21:00 hours and 07:00 hours on Saturday and Sunday. Closures will not be undertaken during Bank Holidays and when an evening race meeting is scheduled at Chester Racecourse.

The effect of the proposed Order will be to temporarily:-

i. prohibit all vehicles, other than vehicles being used by the emergency services or for the works, from proceeding in the lengths of the trunk road specified in Schedule 1 to this Notice.

ii. impose a 40 mph speed limit in the length of the trunk road specified in Schedule 2 to this Notice.

The alternative route for southbound vehicles will be via the westbound A55 to Junction 35, southbound A550 and B5373 and eastbound B5102 to join the A483 at Junction 7: vice versa for northbound vehicles from Junction 7. Diversion signs will also be in place for northbound vehicles from Junction 6 (Gresford Interchange) advising them to follow the south-eastbound A5156, eastbound A534 and northbound A41 to join either the westbound or eastbound A55 at Junction 39. Diversionary routes for local traffic wishing to join the A483 from the B5445 Wrexham Road and Rough Hill or access these roads from the A483 will also be signed accordingly.

All vehicles over 3.0 metres in width will be prohibited from using the main diversion route and will be directed into lay-bys prior to the closures with the use of advanced warning signs stating a telephone number to call if required and if necessary the vehicles will be escorted to a safe parking area within the works until closures are removed.

Although the proposed Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 12 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential work is required due to unforeseen circumstances.

**M D BURNELL**
Transport, Welsh Government

### SCHEDULE 1

i) The length of the northbound carriageway of the trunk road that extends from the start of the nosing of the northbound off slip road at Junction 7, Rossett Interchange to the Wales/England border.

ii) The length of the southbound carriageway of the trunk road that extends from the Wales/England border to the end of the nosing of the southbound on slip road at Junction 7, Rossett Interchange.

iii) The entire lengths of the northbound on slip road and southbound off slip road at Junction 7, Rossett Interchange.

### SCHEDULE 2

The length of the northbound carriageway of the trunk road that extends from a point 1.8 km south of the nosing of the northbound off slip road at Junction 7, Rossett Interchange to the start of the nosing of the northbound off slip road at Junction 7, Rossett Interchange.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE